

## 2014 Rhif 1056 (Cy. 96)

### TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A483  
(Croesfan Reilffordd Cilyrychen,  
Heol Llandeilo, Ger Llandybïe, Sir  
Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau  
Dros Dro) 2014

*Gwnaed* 3 Ebrill 2014

*Yn dod i rym* 9 Ebrill 2014

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o’r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

#### Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Ebrill 2014. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Croesfan Reilffordd Cilyrychen, Heol Llandeilo, Ger Llanbybïe, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2014.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 9 Ebrill 2014 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith;

ystyr “y darn o’r gefnffordd” (“*the length of the trunk road*”) yw’r darn o gefnffordd yr A483 wrth Groesfan Reilffordd Cilyrychen, i’r gogledd o Landybïe, yn Sir Gaerfyrddin, sy’n ymestyn o bwynt sydd tua o 20 o fetrau ar bob ochr i’r groesfan o dan sylw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### **Gwaharddiad**

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o’r gefnffordd.

### **Cymhwyso**

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

### **Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig            3 Ebrill 2014

*R Morgan*

**R MORGAN**

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
- (2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae’r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.